


Buchedd Bangor

Cadeirlan Deiniol Sant
ym Mangor
Saint Deiniol's Cathedral
in Bangor



CYLCHGRAWN CADEIRLAN DEINIOL SANT YM MANGOR

THE MAGAZINE OF ST DEINIOL'S CATHEDRAL IN BANGOR



**GAEAF 2024-5 | WINTER 2024-5
RHAD AC AM DDIM | FREE**

Tu mewn Inside

4 - Y byd a'r betws

Beth sy'n digwydd yn y gadeirlan

5 - Bangor eyes

What's been happening in the cathedral

12 - Blwyddyn o ddathlu

13 - A year of celebration

14 - Moliant i Ddeiniol

Ond pwy oedd o?

15 - In praise of Deiniol

But who was he?

22 - 1500 o flynyddoedd

Rowan Williams yn myfyrio

23 - 1500 years

Rowan Williams reflects

28 - Paned hefo...

Sam Jones, yr ailgantor

29 - Getting to know...

Sam Jones, the succentor

42 - Ein helusen Nadolig

43 - Our Christmas charity

54 - Dyddiadur

55 - Diary

74 - Y gair olaf

75 - The last word



Croeso

Buchedd: y hen enw Cymraeg a roddwyd ar gofnod bywyd rhywun, yn aml yn adrodd straeon seintiau Celtaidd Cymru. Erbyn hyn, mae'n dynodi cofnod o fywyd cymuned ein cadeirlan a'n dinas, gyda myfyrdodau ysbyrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd gyda'n gilydd.



Croeso i'r rhifyn diweddaraf hwn o Ffuchedd Bangor, cylchgrawn Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.

Blwyddyn newydd dda! Mae'r flwyddyn eglwysig yn cychwyn gyda'r Adfent, y tymor sy'n arwain i fyny at y Nadolig, felly mae hyn yn golygu y gallwn ddymuno'r gorau i chi am 2025 o ddechrau Rhagfyr ymlaen.

Bydd 2025 yn flwyddyn arbennig i ni, gan y bydd yn nodi 1500 o flynyddoedd ers i Deiniol Sant sefydlu'r "clas", cymuned grefyddol fyddai'n datblygu yn gadeirlan ac yn ddinas Bangor.

Mae blwyddyn o ddathliadau yn y ddinas yn cychwyn ar ddechrau'r Adfent gyda gwasanaeth arbennig yma yn y gadeirlan. Byddwn yn nodi mileniwm a hanner o ffydd, gobaith a chariad gyda chyfres o erthyglau yn Buchedd Bangor.

Yn y cyntaf o'r rhain, mae Rowan Williams, cyn-Archesgob Cymru a chyn-Archesgob Caergaint wedi ysgrifennu myfyrdod arbennig i ni am 1500 mlynedd o dystiolaeth Gristnogol yma ym Mangor. Byddwn hefyd yn cymryd golwg fanylach ar Ddeiniol ei hun; yr Athro Barry Lewis sy'n ein tywys trwy'r ychydig a wyddom am ein sylfaenydd, a'r chwedlau a dyfodd o'i amgylch yn nes ymlaen.

Yn y rhifyn hwn hefyd, cewch fanylion am yr hyn fydd yn digwydd yn y gadeirlan dros y Nadolig ac i mewn i'r flwyddyn (galendr) newydd, heb sôn am y newyddion diweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud gan wirfoddolwyr o gymuned ein cadeirlan.

Mae'n cynnwys ein helusen am y Nadolig eleni, y Hive Caffi ym Maesgeirchen (chwirth). Dewch i wybod mwy amdanynt ar dudalen 43, a chofiwch roi help llaw i ni gefnogi eu gwaith dros yr wythnosau i ddod. [B]

Welcome

Welcome to this latest issue of Buchedd Bangor, the magazine of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor.

Happy new year! The church's year begins with Advent, the season leading up to Christmas, so it means we can wish you all the best for 2025 from the start of December.

2025 is a special year for us because it marks 1500 years since Saint Deiniol founded his "clas", a religious community which would develop into the cathedral and city of Bangor.

A year of celebrations in the city begins at the start of Advent with a special service here in the cathedral. We will also be marking a millennium and a half of faith, hope and love with a series of articles in Buchedd Bangor.

In the first of these, Rowan Williams, the former Archbishop of Wales and Archbishop of Canterbury has written a special reflection for us on 1500 years of Christian witness here in Bangor. We are also taking a closer look at Deiniol himself; Professor Barry Lewis guides us through what little we know about our founder, and the myths that came up about him later.

This issue also has details of what's happening in the cathedral over Christmas and into the new (calendar) year, as well as updates on the work being done by volunteers from our cathedral community.

That includes our Christmas charity this year, the Hive Caffi in Maesgeirchen (picture on previous page). Find out more about this community project on page 43, and please help us support its work in the coming weeks. [B]

Y Tîm Golygyddol The Editorial Team

Chris Dearden

Meg Elis

Sam Jones

Tracy Jones

Sara Elin Roberts

Buchedd: the old Welsh name given to a record of someone's life, often telling the stories of the Celtic saints of Wales. Nowadays, it's a record of the life of our cathedral and city community, with spiritual reflections and practical information about our life together.




Y byd a'r betws Bangor eyes



Bu staff y Gadeirlan yn croesawu myfyrwyr i Fangor ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd. Roedd caplan y Brifysgol, y Parch. Neville Naidoo a'r cydlynnydd gweinidogaeth deuluol Yasmin de Rosa yn ffair y glas yn y Brifysgol ac mewn digwyddiad i'r myfyrwyr rhwngwladol. Mae'r Cyfarwyddwr Cerdd Joe Cooper hefyd wedi recriwtio llawer o fyfyrwyr newydd i'r côr; estynnwn groeso i Emily-Rose, Clara, Talitha a Millie sy'n ymuno â ni fel ysgolorion corawl, ynghyd â lestyn oedd gynt gyda grŵp y plant.


Cathedral staff have been welcoming students to Bangor for the new academic year. University chaplain Rev'd Neville Naidoo and family ministry co-ordinator Yasmin de Rosa were at the university freshers' fair and the international students' event. Director of Music Joe Cooper has also recruited several new students into the choir; welcome to Emily-Rose, Clara, Talitha and Millie who join us as choral scholars, along with lestyn who was previously with the children's group.





Mae'r côr hefyd wedi croesawu sawl aelod newydd i grŵp y plant, gan gynnwys Chloe, Cezar, Owain, Ifan a Gryssa (dde). Yn llofft yr organ, mae organydd y gadeirlan Martin Brown bellach yn cael cymorth Sam, 17 oed, fel ysgolor organ, ac Abhay, 15 oed, fel ysgolor iau. Rydym yn ddiolchgar i Ymddiriedolaeth Gaynor Cemlyn Jones, am ddyfarnu i ni arian grant am flwyddyn eto tuag at gost yr ysgoloriaethau organ.

The choir has also welcomed several new members to the children's group, including Chloe, Cezar, Owain, Ifan and Gryssa (right). In the organ loft, cathedral organist Martin Brown is now assisted by 17 year old Sam as organ scholar and 15 year old Abhay as junior scholar. We are grateful to the Gaynor Cemlyn Jones Trust, who have awarded us a further year of grant funding towards the cost of the organ scholarships.



Y byd a'r betws Bangor eyes



Sunday school has been running again for the new term at the 9.15am and 11am services. Highlights have included the creation story in lego and painting trees for harvest. Children have also been acolytes (candle bearers) during the communion service. Our family officer Yasmin de Rosa has also been organising messy church sessions, including one during the Tarannon festival in October.

Bangor Cathedral Guides have been learning about whittling, turning carrots into flutes and making some impressive carvings in soap. They have also been brushing up their first aid skills – we are assured there's no connection between the two!

Cynhaliwyd tymor newydd yr Ysgol Sul eto adeg y gwasanaethau 9.15am ac 11am. Ymysg yr uchafbwyntiau, lluniwyd hanes y Creu mewn Lego, a phaentiwyd lluniau o goed ar gyfer y diolchgarwch. Bu'r plant hefyd yn cludo'r canhwyllau yn ystod gwasanaeth y cymun. Bu ein swyddog teuluol Yasmin de Rosa yn ogystal yn trefnu sesiynau llan llanast, gan gynnwys un yn ystod gwyl Tarannon ym mis Hydref.

Bu Tywyswyr Cadeirlan Bangor yn dysgu am grefft naddu, gan droi moron yn ffliwthiau ac yn creu cerfiadau rhyfeddol allan o sebon. Maent hefyd wedi bod wrthi'n gloywi eu sgiliau cymorth cyntaf – ond gallwch fod yn dawel eich meddwl nad oes unrhyw gysylltiad rhwng y ddau beth!



Croeso i Brendon Burmester sydd wedi dod atom ar gontact chwe mis fel cymhorthyyd gweithrediadau'r gadeirlan. Ef fydd yn gyfrifol am wneud yn siŵr fod bywyd beunyddiol y gadeirlan yn rhedeg yn llyfn – o symud dodrefn i ofalu bod y lle'n daclus.

Mae eisoes wedi trawsnewid y siop, sydd wedi ail-agor am rai dyddiau'r wythnos. Mae doniau Brendon wrth werthu magnetau rhewgell eisoes yn enwog!

Welcome to Brendon Burmester who's joined us on a six month contract as the cathedral's operations assistant. He will be in charge of making sure that the daily life of the cathedral runs smoothly – from moving furniture to making sure the place is tidy.



He's already done a blitz on the shop, which has reopened a few days a week. Brendon's skills in selling fridge magnets are already becoming legendary!

Galwad 999 i'r gadeirlan? Na, grŵp Camau Bach fore dydd Mawrth i blant mân. Galwodd swyddogion o'r heddlu a'r gwasanaeth tân heibio yn ddiweddar i sôn wrth y plant am yr hyn maent yn wneud, ac i ddangos eu cerbydau a'u hoffer.

999 call to the cathedral? No, it's Tuesday morning's Camau Bach group for toddlers. Police and fire officers called in recently to tell the children what they do and show their vehicles and equipment.

**Cinio dewch a rhannu nesaf:
8 Rhagfyr, ar ôl y gwasanaeth 11am**

Next bring and share lunch:
8 December after the 11am service



Y byd a'r betws Bangor eyes



Lluniau uchod ac isod trwy garedigrwydd Adran Ffotograffiaeth RAF Y Fali, Hawlfraint y Goron

Pictures above and below courtesy of RAF Valley Photographic Section, Crown Copyright



Cynhaliwyd nifer o wasanaethau arbennig yn ystod yr hydref, gan gynnwys gwasanaeth coffa Brwydr Prydain i Lu Awyr y Fali, y gwasanaeth Sul Dinesig gyda Chyngor Dinas Bangor, a gwasanaeth Sul y Coffa y ddinas. Cafwyd gwasanaethau diolchgarwch am y cynhaeaf hefyd i'n cynulleidfa ni ein hunain ac i Ysgol Cae Top, un o ysgolion eglwys y gadeirlan.


The cathedral has hosted several special services during the autumn, including the Battle of Britain memorial service for RAF Valley, Civic Sunday service with Bangor City Council and the city's Remembrance Sunday service. There has also been harvest festivals for our own congregation and for Ysgol Cae Top, one of the cathedral's church schools.





Mae'r gwasanaethau arbennig wedi bod yn cadw'r trefnwyr a'r gosodwyr blodau yn brysur, yn gofalu bod y trefniannau blodau yn y gadeirlan yn cyfateb i liwiau thema'r digwyddiad. Ychwanegwyd mymryn o las ar gyfer y Llu Awyr, a lliwiau oren a melyn ar gyfer y cynhaeaf! Mae'r trefnwyr ar hyn o bryd yn chwilio am aelodau newydd i helpu gyda'r gwaith, ynghyd â rhoddion tuag at gost y blodau. Cysylltwch â'r Canon Tracy am fwy o fanylion.

The special services have kept the flower guild busy, making sure that the arrangements in the cathedral match the theme colours of the event. A touch of blue was added for the RAF, with oranges and yellows for harvest! The guild is currently looking for new members to help with its work, and donations towards the cost of flowers. Contact Canon Tracy for more details.



Y byd a'r betws Bangor eyes



Ar gyfer ein gŵyl gelfyddydol Tarannon ym mis Hydref, addurnwyd yr adeilad â rubanau a goleuadau i adlewyrchu thema'r digwyddiad, sef afonydd.


Roedd yr wyl yn gyfle i groesawu nifer o bobl nad oedd erioed wedi bod dros drothwy'r gadeirlan cyn hyn, ac ymysg y digwyddiadau cafwyd noson meic agored, cyngerdd, cystadlaethau barddoniaeth a ffotograffiaeth, a darlith ar gyflwr afonydd Cymru.

Fis ynghyt, daeth dros 70 o bobl ynghyd yn y gadeirlan ar gyfer diwrnod o sgyrsiau, cyflwyniadau a thrafodaethau am lenyddiaeth Gymreig ganoloesol, a dylanwad cymuned eglwysig Clynnog Fawr ar fywyd diwylliannol Cymru yn y cyfnod.

Our Tarannon arts festival in October saw the building decorated with ribbons and lights to reflect the event's theme of rivers.

The festival was chance to welcome plenty of people who had not set foot in the cathedral before, and included an open mic night, concert, poetry and photography competitions and a lecture on the state of Welsh rivers.

A month earlier, over 70 people gathered in the cathedral for a day of talks, presentations and discussions on medieval Welsh literature, and the influence of the church community at Clynnog Fawr on the cultural life of Wales at the time.





Yr oedd rhaglen S4C "Dechrau Canu Dechrau Canmol" yn dangos y gadeirlan ym mis Medi. Dychwelodd y camerâu ym mis Tachwedd i recordio o'r newydd gyda'r côr a chynulleidfa frwdfrydig, fydd yn rhan o raglen Nadolig arbennig am 8pm ar Ragfyr 22.

Mae BBC Radio Wales hefyd wedi galw draw, yn recordio rhaglen am y bardd Dafydd ap Gwilym, ac ym mis Hydref buom yn cynnal gweithdy celf gyda'r nod o fynd i'r afael ag afiechyd meddwl.

The S4C programme "Dechrau Canu Dechrau Canmol" featured the cathedral in September. Their cameras were back in November for a new recording involving the choir and an enthusiastic congregation, which will form part of a Christmas special at 8pm on 22 December.

BBC Radio Wales have also been in, recording a programme on the poet Dafydd ap Gwilym, and in October we hosted an arts workshop aimed at tackling poor mental health.



Blwyddyn o ddathlu



Cynhyrchwyd y logo trawiadol hwn i roi hunaniaeth weledol i'r dathliadau ledled y gadeirlan a'r ddinas. Fe'i dyluniwyd mewn cystadleuaeth i ddisgyblion ysgol y ddinas. Disgybl o Ysgol y Garnedd oedd yn fuddugol o blith dros 170 ymgais.

This striking logo has been produced to form a visual identity to celebrations across the cathedral and the city. It was designed following a competition involving school pupils in the city. The winning design came from a pupil at Ysgol y Garnedd, chosen from over 170 entries.

Cynhelir digwyddiadau i nodi 1500 mlynedd ers ein sefydlu trwy gydol 2025, medd Brendon Burmester.

Dechreuodd y dathliadau gyda gwasanaeth arbennig ar Ragfyr 1 pryd y derbynwyd Croes Cymru yn swyddogol yn y gadeirlan. Rhodd gan y Brenin Charles III oedd Croes Cymru i nodi canmlwyddiant yr Eglwys yng Nghymru.

Y flwyddyn nesaf, bydd côr y gadeirlan yn ymarfer recordiad newydd o gerddoriaeth Gymraeg, llawer ohono wedi ei gyfansoddi'n arbennig ar gyfer Cadeirlan Bangor. Caiff eicon newydd o Sant Deiniol ei baentio dros y misoedd nesaf, i'w ddadorchuddio ym mis Tachwedd.

Mae dau berfformiad arbennig yn cael eu trefnu; cyngerdd roc ym mis Chwefror (gweler t49), ac ym mis Awst, bydd Ysgol Glanaethwy yn llwyfannu perfformiad a gomisiynwyd yn arbennig dan y teitl "Dinas Noddfa".

Mae cyngor y ddinas yn bwriadu plannu 18,000 o gennin Pedr dros yr wythnosau nesaf, yn barod i flodeuo ar Ddydd Gŵyl Dewi yn y gwanwyn. Bydd ysgolion ym Mangor hefyd yn rhoi capsiwlau amser at ei gilydd, i gael eu claddu dan goeden goffa yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Cyhoeddir mwy o ddigwyddiadau yn y ddinas yn fuan.

Meddai Dr Martin Hanks, cyfarwyddwr y ddinas: "Rydyn yn wir yn edrych ymlaen at y 12 mis nesaf. Mae'n gyfle ardderchog i ddwyn y gymuned ynghyd o gwmpas ein hanes cyffredin."

Meddai'r Canon Robert Townsend, cadeirydd pwylgor dathliadau 1500 mlynedd y gadeirlan: "dyma garreg filltir i Fangor, a'n gobaith yw y bydd dathliadau pawb yn gyfle i roi'r ddinas ar y map." [B]

A year of celebration

Events to mark 1500 years since our foundation will be taking place throughout 2025, **Brendon Burmester writes.**

Celebrations began with a special service on 1 December at which the Cross of Wales was officially received at the cathedral. The Cross of Wales was a gift from King Charles III to mark the Church in Wales centenary.

Next year, the cathedral choir will release a new recording of Welsh language music, much of it composed specially for Bangor Cathedral. A new icon of Saint Deiniol will be painted during the coming months, to be unveiled in November.

Two special performances are being organised; a rock concert in February (see p49), and in August, Ysgol Glanaethwy drama school stage a specially commissioned performance called "City of Refuge".

The city council is planting 18,000 daffodils in the coming weeks, ready to bloom on St David's Day next spring. Schools in Bangor will also be putting time capsules together which will be buried under a commemorative tree later in the year. More city events will be announced soon.

Dr Martin Hanks, city director said: "we're really looking forward to the next 12 months. It's a great chance to bring the community together around our shared history."


Canon Robert Townsend, chair of the cathedral's 1500th anniversary committee said: "this is a milestone moment for Bangor, we hope everyone's celebrations will be a chance to put the city on the map." [B]



Uchod: Mae llun y gadeirlan ar stampiau Nadolig y Post Brenhinol am 2024, i gydnabod ein bod yn dathlu 1500 mlynedd ers ei sefydlu. Isod: Parchg Neville gyda'r Groes Cymru

Above: the cathedral features on Royal Mail's 2024 Christmas stamps to mark our 1500th anniversary. Below: Revd Neville with the Cross of Wales






"Mae 'm Mangor drysor a drig"

"In Bangor is a treasure that endures"

Nawddsant a sefydlydd
cadeirlan Bangor yw
Deiniol Sant, ond beth
sy'n hysbys amdano?
Mae'r Athro Barry Lewis
o Athrofa Uwchefrydiau
Dulyn wedi astudio
bucheddau a storïau llawer
o seintiau Cymru, ac yma
mae'n archwilio'r ffeithiau
a'r chwedlau...


Saint Deiniol is Bangor cathedral's patron saint and founder, but what do we know about him? **Professor Barry Lewis** of the Dublin Institute for Advanced Studies has studied the lives and legends of many Welsh saints, and examines the facts and the myths...





Delweddau o Ddeiniol: (uchod) saif cerflun bychan o Ddeiniol ar allor yng nghefn y gadeirlan ac (isod) mae eicon yn cyfarch pobl pan fyddant yn cyrraedd trwy'r porth gorllewinol.

Images of Deiniol: (above) a small statue of Deiniol stands on an altar at the back of the cathedral while (below) an icon greets people as they arrive through the west door.




Ffurf Gymraeg ar yr enw beiblaidd Daniel yw Deiniol. Gallwn fod yn weddol sicr iddo farw ar 11 Medi, gan mai dyna'r dyddiad a nodir ar ei gyfer mewn calendrau eglwysig, ac mae'n debygol iawn fod cymuned Deiniol ym Mangor wedi coffáu'r diwrnod yn ddi-dor oddi ar y flwyddyn y bu ef farw.

Ar ôl dweud hynny, fodd bynnag, mae'r trywydd yn dechrau mynd yn annelwig. Pryd roedd cyfnod Deiniol? Yn ôl cofnod yn y cronicl Cymreig, cafodd ei gladdu yn 584. Nid yw haneswyr, fodd bynnag, yn derbyn gair unrhyw gronicl yn ddigwestiwn. Mae'n ymddangos bod y cofnod wedi cael ei gyfansoddi grym dipyn yn ddiweddarach, ac os felly, sut y bu i'r "ffaith" hon oroesi yn y cyfamser? Ydy'r dyddiad yn gywir, neu'n amcangyfrif gan rywun nad oedd mewn gwirionedd yn gwybod?

Cwestiwn mawr arall: beth yn union a wnaeth Deiniol? Nid oes unrhyw ffynhonnell hanesyddol yn sôn amdano am ganriffoedd ar ôl ei amser. Eto, daeth ei eglwys i aml y grwydd yn gynnar. Mae cronicl o Iwerddon yn nodi "Ilosgfa Bangor Fawr ym Mhrydain" tua 634 – nid yw'n datgelu pwy a losgodd hi, neu a wnaed hynny o fwriad, ond digwyddiad cyffredin oedd anrheithio eglwys yn yr Oesoedd Canol cynnar. Mae Deiniol yn un o dri sant o Gymru a enwir mewn merthyroleg (rhestr o seintiau) a roddwyd at ei gilydd yn Iwerddon yn y degawdau o gwmpas 800.

Fel rhywun sy'n gwneud ymchwil ar seintiau Cymru, rwyf yn aml yn gorfol cyfaddef nad ydym ni'n gwybod y nesaf peth i ddim amdanyst fel unigolion. Mae'n gallu bod yn rhwystredig, ond mewn unrhyw faes ymchwil fe fydd ffiniau i'r hyn y mae'n bosibl ei wybod, ac mae derbyn hynny yn egwyddor sylfaenol. Efallai nad oes ond briwsion o oes Deiniol ei hyn, ond mae cyfoeth o ddeunydd yn ymddangos yn nes ymlaen.

Nid pwy oedd sant, neu beth a wnaeth, yw'r cwestiynau pennaf. Yr hyn sy'n cyfri fwyaf yw'r cof a'r chwedl sy'n aros ac yn tyfu wedyn. Dyna arwyddocâd y sant i'r Iliaws cenedlaethau a fu fyw yn ddiweddarach, pobl a addolodd y sant, a weddiodd ar y sant pan oedd ynt yn sâl neu mewn trybini, a ymwelodd



Delweddau o Ddeiniol: saif y cerflun hwn uwch porth y de

Images of Deiniol: this statue stands over the south door

Deiniol's name is a Welsh form of the biblical Daniel. We can be fairly certain that he died on 11 September, since that is the day marked for him in church calendars, and it is very likely that Deiniol's community at Bangor celebrated it in unbroken tradition from the year he died.

But now things get tricky. When did Deiniol live? An entry in the Welsh annals says that he was buried in 584. Historians, however, do not take such statements on trust. The entry was likely not made until quite a bit later, so how did this "fact" survive in the meantime? Is it accurate, or just an estimate by somebody who did not really know?

The other great question is what exactly did Deiniol do? There is no historical source about him for hundreds of years after his lifetime. Yet his church became well-known from early on. An Irish chronicle records the "burning of Bangor the Great in Britain" around 634 – we are not told who burnt it, or even if it was deliberate, but it was fairly common event for churches to be plundered in the early Middle Ages. Deiniol is one of only three Welsh saints named in an Irish martyrology from the decades around 800.

As someone who researches Welsh saints, I am used to having to say that we know next to nothing about them as individuals. It can be frustrating, but it is a basic principle of research that we accept the limits of what we can know. For, if there is precious little from the lifetime of Saint Deiniol, there is plenty later on.





Delweddau o Ddeiniol: (chwith) sy'n cael ei goffáu mewn gwydr lliw yn ein cadeirlan ac (ar y dde) yn eglwys y Santes Fair yn Nhrefriw. Tydyn ni ddim yn holl siŵr pam ei fod yn dal sgwaryn! Lluniau: Alamy

Images of Deiniol: in stained glass (left) in our cathedral and (right) in St Mary's church in Trefriw. We're not sure why he seems to be holding a set square! Pictures: Alamy

â chysegrfa'r sant fel pererinion, a wrandawodd ar chwedlau am y sant ac a luniodd rai newydd.

Yn ddelfrydol, fe fydd gan sant fywgraffiad, neu "vita", a defnyddio'r enw Lladin, a fydd yn gyforiog o chwedlau lliwgar. Gwaetha'r modd, nid oes vita ar gyfer Deiniol. Ond byddid yn darllen darnau o vita sant yn yr eglwys ar ei ddydd gŵyl, ac yma rydym o'r diwedd yn cael mwy o hwyl ar ein hymchwil. Yn wahanol i drwch y fath ddarleniadau, nid aeth rhai Deiniol i ebargofiant drwy elyniaeth neu ddifaterwch y Diwygwyr Protestannaidd. Achubwyd hwy gan gasglwr Catholig o'r ail ganrif ar bymtheg, Thomas Wiliems, Trefriw. Dywedir ynddynt fod Deiniol wedi cael ei eni i deulu crand, ond penderfynodd adael ei fro enedigol (ni ddywedir lle roedd honno) a mynd yn feudwy ger tref Penfro yng ngorllewin Cymru. Yno adeiladodd Deiniol fwthyn syml iddo'i hun. Heddiw mae eglwys Daniel Sant yn sefyll yn yr un lle, eglwys nad yw mewn defnydd mwyach.

Tra oedd Deiniol yn gwasanaethu Duw yn ei gell fach, dyma esgobaeth Bangor yn dod yn wag, a dysgodd clergiwyr y gadeirlan mewn breuddwyd y dylent anfon am y meudwy distadl i fod yn esgob drostynt. Roedd Deiniol yn syn, oherwydd ni fedrai ddarllen nac ysgrifennu, ac yn ei farn ef ei hun roedd yn ymgeisydd holol annigonol.

What is most important is not who the saint was or what he or she did. It is the memory and the story left behind to endure and grow. It is what the saint meant to the generations of people who lived afterwards, those who venerated the saint, who prayed to the saint when they were sick or in trouble, who visited the shrine as pilgrims, who listened to stories about the saint and told new ones.

Ideally, a medieval saint will have a biography, or "vita", to use the Latin term, which will be full of colourful stories. Alas, no vita survives for Deiniol. But sections from a saint's vita were often read out in church on their feast day, and here we are in luck. Such readings were almost all destroyed or thrown away after the Protestant Reformation, but Deiniol's were saved by a seventeenth-century Catholic, Thomas Wiliems of Trefriw. They say that Deiniol was born to a noble family, but decided to leave his home region (we are not told where that was) and become a hermit near the town of Pembroke in West Wales. Here Deiniol built a rough hut where St Daniel's church now stands, though disused.

While Deiniol was serving God in his little hermitage, the see of Bangor fell vacant, and the cathedral clergy were told in a vision that they should fetch the humble hermit from afar to be their bishop. Deiniol was amazed, for he could not even read or write, and was altogether a quite unsuitable candidate.

But the will of God was made clear when he arrived in Bangor. Not only did the cathedral bells ring of their own accord to greet him, but he was miraculously filled with all the learning that a bishop needed.

The remaining readings tell of miracles that Deiniol performed while he was still a hermit: turning cattle-thieves into stones, persuading wild stags to pull a plough, and raising a holy well to which people came to be cured of their sicknesses.

You may have noticed a remarkable feature of these readings. The cathedral of Bangor already existed before Deiniol's time, and he did not find it; indeed, he was not even its first bishop! This seems quite strange



Delweddu o Ddeiniol: darlun o ffenestr liw yn Nyffryn Clwyd. Sylwch fod y rhan fwyaf o luniau o Ddeiniol yn ei dangos heb farf!

Cymerwyd o "Lives of the British Saints" (Baring-Gould & Fisher, 1907)

Images of Deiniol: a drawing of a stained glass window in the Vale of Clwyd. Note that most representations of Deiniol show him without a beard!

Taken from "Lives of the British Saints" (Baring-Gould & Fisher, 1907)

Ond ni fu mymryn o amheuaeth am ewyllys Duw pan gyrhaeddodd Fangor. Nid yn unig y canodd clychau'r gadeirlan ar eu liwt eu hunain i'w groesawu, ond drwy wyrth arall cafodd wybod mewn chwinciad yr holl ddysg angenrheidiol i esgob.

Yn ngweddill y darlleniadau sonnir am wyrthiau a wnaeth Deiniol tra oedd yn feudwy: troi lladron gwartheg yn gerrig, dwyn perswâd ar geirw gwylt i dynnu aradr, a chodi ffynnon sanctaidd y deuai pobl iddi er mwyn iacháu eu clefydau.

Efallai eich bod wedi sylwi ar nodwedd ryfedd yn y darlleniadau. Roedd cadeirlan Bangor yno cyn amser Deiniol, ac nid ef oedd ei sefydlydd; yn wir, nid ef oedd y cyntaf i fod yn esgob yno hyd yn oed! Mae hyn yn ymddangos yn rhyfedd iawn erbyn hyn, gan fod pawb yn credu mor gadarn mai Deiniol oedd sefydlydd Bangor. Efallai fod rhyw Ddeiniol arall o'r de wedi cael ei uno â sant Bangor. Gallai hynny fod wedi newid storïr gadeirlan yn arw, drwy symud rôl Deiniol i bwynt diweddarach yn yr hanes, ar ôl y sefydlu. Ond os felly, pwy oedd gwir sefydlydd Bangor ym marn y bobl? Distawrwydd llethol yn y darlleniadau.

Roedd y darlleniadau hyn, neu rai tebyg iawn, mewn defnydd ym Mangor ar ddiwedda'r Oesoedd Canol. Fe wyddom hyn oherwydd iddynt gael eu defnyddio i greu cerdd Gymraeg gan offeiriad o Fôn, yntau'n ganon yn y gadeirlan, sef Dafydd Trefor. Ysgrifennodd ei gerdd yn 1527, ac mae'n cynnwys moliant i Ddeiniol ac i'r esgob, Thomas Skeffington, a oedd ar y pryd yn gwario'n hael i adnewyddu'r gadeirlan. Mae'r gerdd yn adrodd yr union un storïau ag a geir yn y darlleniadau.

Fe gredir fel arfer fod Deiniol wedi ei gladdu ar ynys Enlli ac nid ym Mangor. Mewn testun o ddechrau'r ddeuddegfed ganrif sy'n trafod Enlli, rhestrir Deiniol ymhlið seintiau enwog Cymru sy'n gorwedd yno. Os gwir, golygai hynny nad oedd y gadeirlan mewn lle i arddangos esgyrn ei nawddsant.

Yn yr Oesoedd Canol cynnar, fe all nad oedd hynny o fawr bwys, gan fod defosiwn Cristnogion o Gymry yn canolbwytio mwy ar greiriau yr oedd dwylo'r seintiau wedi cyffwrdd â hwy, fel clychau, baglau neu lyfrau sanctaidd, ac nid yn gymaint ar gyrrff y seintiau eu hunain. Ond yn nes ymlaen yn yr Oesoedd Canol, roedd pwys mawr ar esgyrn fel yng ngweddill y byd Cristnogol, a byddai pererinion wedi disgwyl eu gweld yn bresennol ac yn gwneud gwyrthiau ym mhristifeddu y sant.

Mae llinell gyntaf cerdd Dafydd Trefor yn bryfoclyd: "Mae 'm Mangor drysor a drig", a Deiniol yw'r trysor y sonnir amdano. Fe allai hyn olygu ei fod yno mewn ysbryd. Ond, pan ddywed awduron canoloesol am sant, 'Mae yn y fan a'r fan', maent fel arfer yn golygu hynny'n diriaethol ac mewn ystyr gorfforol. Tybed, felly, a gafodd esgyrn Deiniol Sant eu symud o Enlli i gysegrfa yn y gadeirlan erbyn amser Dafydd Trefor? Dyma rywbed i'r archaeolegwyr gnoi cil arno. **[B]**

Delweddau o Ddeiniol: mae'n debyg na fuasai wedi dychmygu yn 525 y byddai canolfan siopa wedi ei henwi ar ei ôl! Mae yno furlun hefyd yn dangos Deiniol yn farfog, ac yn ddadleuol iawn, yn goruchwyllo eraill yn codi'r ffens, yn hytrach na bwrw ati ei hun!

Images of Deiniol: he probably didn't think in 525 that he'd one day have a shopping centre named after him! It also has a mural showing Deiniol with a beard, and controversially, supervising others building the fence, rather than doing it himself!



nowadays, given how sure everyone is that Deiniol was the founder. Perhaps a different Deiniol from south Wales has been melded with the Bangor saint, with the drastic result that he now came into the story later, after the foundation. But if so, who then did people believe was the founder of Bangor? The readings are exasperatingly silent on this.

These readings, or something very like them, were in use at Bangor at the end of the Middle Ages. We know this because they were drawn on for a Welsh poem written by an Anglesey priest and canon of the cathedral, Dafydd Trefor. He wrote his poem in 1527, and it is both a celebration of St Deiniol and of the bishop, Thomas Skeffington, who was lavishly rebuilding the cathedral at the time. The poem covers just the same stories as are found in the readings.


It is usually thought that Deiniol was buried on Bardsey island and not in Bangor. An early twelfth-century text about Bardsey lists Deiniol among famous Welsh saints who rested there. This would have left the cathedral without the bones of its patron.

In the early Middle Ages, this might not have mattered too much, for Welsh Christians seem to have been more devoted to relics that the saints had touched, like bells, croziers or holy books, than to their actual bodies. But in the later Middle Ages, bones really counted, as they did in the rest of the Christian world. Pilgrims would expect to find them present and powerful at the saint's great church.

I am struck by the first line of Dafydd Trefor's poem: "In Bangor is a treasure that endures", the treasure being Saint Deiniol. Now, this could mean that he was present there in spirit. But, when medieval authors say that a saint "is" somewhere, they usually mean it in a quite concrete, physical sense. I wonder, then, if the bones of Saint Deiniol had been moved from Bardsey to a shrine in the cathedral by Dafydd Trefor's time? Something for archaeologists to ponder. [B]



1500 o flynyddoedd: myfyrdod





Mae'r flwyddyn 2025 yn nodi 1500 o flynyddoedd ers i Sant Deiniol sefydlu ei gymuned grefyddol a chodi ffens o bren – “bangor” oedd yr enw a grŵyd hynny – o’i chwmpas. Tyfodd y gymuned honno i fod yn gadeirlan ac yn ddinas Bangor sy’n gyfarwydd i ni heddiw.


Wrth i ni gychwyn ar flwyddyn o ddathliadau, mae **Rowan Williams**, cyn-Archesgob Cymru a chyn-Archesgob Caergaint yn myfyrio am y ffaith fod y gwaith a gychwynnwyd gan Ddeiniol yn parhau hyd heddiw...

1500 years: a reflection

The year 2025 marks 1500 years since Saint Deiniol founded his religious community and built a wooden fence – called a "bangor" around it. That community grew into the cathedral and city of Bangor we know today.

As we begin a year of celebrations, **Rowan Williams**, former Archbishop of Wales and Archbishop of Canterbury reflects on that the work begun by Deiniol continues to this day...





Bangor yn 525: argraff artist o anheddfan wreiddiol Deiniol

Bangor in 525: artists impression of Deiniol's original settlement

LLUN | PICTURE: Helen Flook/Heneb

Mae 1500 o flynyddoedd yn dipyn o ben-blwydd i'w ddathlu. Hyd yn oed os oes angen bod fymryn yn wyliadwrus wrth ddehongli'r union gronoleg (diolch i awydd pobl y Canol Oesoedd am fod yn daclus) 'does dim amheuaeth o gwbl fod tystiolaeth fyw y gymuned Gristnogol yma yn stori ddi-dor sydd yn rhyfeddod gwerth ei ddathlu.

Ac eto, fel pob stori o'r fath yn hanes yr eglwys, mae'n ein hatgoffa nad yw'r hyn y cymerwn ni yn holol ganiataol o raid yn para am byth. Buasai Deiniol a'i gymrodyr wedi rhyfeddu ar lawer ystyr o weld beth ddigwyddodd i'w cymuned. Buasai ysblander gweledol yr adeilad a'r addoliad wedi eu synnu.

Ac eto, dywed llawer o ffynonellau wrthym nad oedd yr Eglwys Gymreig yn y cyfnod hwnnw, ganrif a hanner ers i'r Rhufeiniaid adael Prydain, o bell ffordd yn sefydliad heb adnoddau deallusol, celfyddydol ac ysbrydol dwfn. Byddai clergiwyr yr oes honno yn darllen y clasuron ac yn ysgrifennu Lladin rhugl a bywiog; yr oeddent yn cadw mewn cysylltiad â phrif gerrynt deallusol y byd Ewropeaidd Cristnogol; yr oeddent yn synied amdanyst eu hunain nid yn unig fel etifeddion y byd clasurol ond hefyd fel etifeddion Hebreaid yr Hen Destament (sy'n esbonio pam eu bod mor hoff o enwau Beiblaidd


1500 years is a pretty substantial birthday to be celebrating. Even if the exact chronology has to be interpreted with a bit of caution, there is no doubt at all that the living witness of the Christian community here is an impressively unbroken story.

Yet, like all such stories in the history of the Church, it reminds us that what we readily take for granted isn't necessarily eternal. Deiniol and his colleagues would have been in so many ways startled to see what their community had become. The visible splendour of building and worship would have been a surprise to them.

Yet we know from so many sources that the Welsh church of that era, in the century and a half after the Romans left Britain, was not at all an institution without deep intellectual, artistic and spiritual resources. The clerics of that age read the classics and wrote fluent and lively Latin; they kept in touch with the great currents of the European Christian world; they saw themselves as at once the heirs of the classical world and the heirs of the Hebrews of the Old Testament, which is why they loved biblical names like Dewi and Deiniol and Asser and Selyf - David, Daniel, Asher, Solomon and their prophetic traditions. They combined austerely simple lives with riches of the mind and soul – which is not a bad combination at a time when the social prestige and power of the church is not what it was.

Bangor yn 2025: mae'r Stryd Fawr mewn cromlin o gwmpas y gadeirlan, fel arwydd o'r ddinas yn tyfu allan o'r gymuned grefyddol. LLUN: Alamy

Bangor yn 2025: the High Street curves round the cathedral as a legacy of the city growing out of the religious community. PICTURE: Alamy





Bangor yn 2025: (uchod) Cyflwynnydd BBC Radio Cymru Aled Hughes yn ymweld fel rhan o bererindod i godi arian ar gyfer Plant mewn Angen. ac (isod) y tîm yn cyfarfod â chaffi Bywyd Da yn y ddinas i ddatblygu syniad sy'n newydd i ni: lledaenu'r efengyl trwy ddefnyddio Lego!

Bangor in 2025: (above) BBC Radio Cymru presenter Aled Hughes visits as part of a fundraising pilgrimage walk, and (below) the team meet with Bywyd Da cafe in the city to develop a new idea for us: spreading the gospel using Lego!



fel Dewi a Deiniol ac Asser a Selyf) a'u traddodiadau proffwydol. Yr oeddent yn cyfuno bywydau oedd yn llym eu symlirwyd gyda chyfoeth meddwl ac enaid – cyfuniad eithaf da mewn cyfnod pan nad yw urddas cymdeithasol a grym yr eglwys yr hyn yr arferai fod.

Ond yn galon i'r cyfan yr oedd yr hyn a gynrychiolir o hyd gan Gadeirlan Bangor - cymuned sydd wedi ymrwymo i gylch cyson y litwrgi ddyddiol; ffynhonnell maeth ac ysbrydoliaeth i deulu o gymunedau ledled yr ardal. Mae'n ymddangos mai Gwynedd oedd un o'r ychydig o ardaloedd yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol cynnar i feddu ar ffurf o esgob tiriogaethol (fe gymerodd lawer mwy o amser i ni'r Hwntws di-drefn wneud hyn, ac yr oeddem yn boen enaid i'r Normaniaid). Nid damweiniol mo hyn, o gofio cryfder y teimlad o frogarwch ac o linach, yr ymdeimlad dwfn o berthyn sydd yn wastad wedi nodweddu'r cornelyn hwn o ddaear Cymru.

Ac y mae cymuned y gadeirlan yn dal i dystiolaethu i'r ymdeimlad hwn o berthyn; mae'n ymateb i awydd pobl i berthyn, ar sawl lefel – trwy waith y banc bwyd, Hive Caffi, y gwaith arloesol o ddatblygu'r traddodiad corawl Cymraeg; a'r un dystiolaeth feunyddiol ffyddlon, yr offrwm o foliant a diolch wrth Fwrdd yr Arglwydd sy'n agor drysau'r Deyrnas i bob un bod dynol.

Wrth edrych ymlaen, gallwn weddöio y bydd i'r fangre hon barhau i fod yn adnodd i'r deall ac i'r dychymyg, ac yn dŷ gweddi; y caiff aberth Crist unwaith ac am byth i iachau'r byd ei arddangos yn amlwg dro ar ôl tro; ac y bydd dyhead pobl am berthyn yn cael ei ateb yma mewn gwasanaeth, croeso a chyfeillgarwch; ac y bydd yr angerdd a'r ymhyfrydu yn yr Efengyl a ddygodd Deiniol yma yn y chweched ganrif yn cael eu hail-gynnau o genhedlaeth i genhedlaeth. [B]




Bangor yn 2025: mae gwirfoddolwyr banc bwyd y gadeirlan yn cefnogi cannoedd o bobl bob blwyddyn

Bangor in 2025: volunteers at the cathedral foodbank support hundreds of people a year

But at the heart of it all was what Bangor Cathedral still represents – the community devoted to a steady round of daily liturgy; a source of nurture and inspiration for a family of communities around the region. It looks as though Gwynedd was one of the relatively few areas of early mediaeval Wales to have something like a territorial bishop. We disorganized southerners took a lot longer, and were a sore trial to the Normans. Not an accident, given the strength of local and dynastic feeling, the deep sense of belonging that has always characterized this very special corner of Wales.

And the cathedral community continues to witness to this belonging; it responds to people's need to belong, at many levels – through the food bank, the Hive Caffi, the innovative work in developing the choral tradition in the Welsh language; and that same dedicated daily witness, the offering of praise and thanksgiving at the Lord's Table which opens the doors of the kingdom for all human beings.

Looking forward, we can pray that this place will continue to be a resource for intellect and imagination and prayer; that the offering of Christ once and for all for the world's healing will still be shown forth day by day; that people's longing to belong will be met here in service, welcome and friendship; and that the passion and delight in the Gospel that brought Deiniol here in the sixth century will be rekindled generation after generation. [B]



Paned hefo... Sam Jones

Ym mhob rhifyn o **Fuchedd Bangor**, byddwn yn cyfarfod aelod o gymuned y gadeirlan.

Y tro yma, dyma pi'n dod i adnabod Sam Jones.

Mae o leiaf 14 gwasanaeth yr wythnos yn cael eu cynnal yn y gadeirlan, a Sam yw'r un sy'n gweithio y tu ôl i'r llenni i wneud yn siŵr eu bod i gyd yn digwydd.

Cafodd air â **Chris Dearden** am ei waith...

Mae teitl eich swydd yn y ddwy iaith yn swnio'n anarferol – "ail-gantor" yn Gymraeg a "succentor" yn Saesneg – beth ydi'r ystyr?

Mae'n golygu rhywbeth fel "yr ail reng sy'n gofalu am yr addoliad", ond sôn yr ydan ni am yr eglwys Anglicanaidd, felly mae'n well cael teitl ffansi!

Mae'r teitl Cymraeg yn esbonio'n well, sef yr "ail-gantor", neu'r "ail ganwr". Yr un sy'n gofalu am fywyd addoliad y gadeirlan yw'r "pencantor" neu'r "prif ganwr". Y pencantor yma yw'r Canon Tracy Jones, er ei bod hi'n defnyddio'r teitl "Canon dros Fywyd Cynulleidfaol."

Mae'n debyg mai'r hyn sydd i gyfrif am darddiad y termau hyn i gyd yw mai mynachdai oedd cymaint o'r eglwysi cadeiriol yn wreiddiol, ac mai ar gân yn bennaf yr oedd prif wasanaethau'r dydd. Felly yr oedd y mynachod oedd yn arwain y canu hefyd yn gyfrifol am drefnu'r addoliad yn gyffredinol.

Felly beth ydych chi'n wneud mewn gwirionedd?

Y rhan honno o'm swydd y mae'r rhan fwyaf o bobl yn weld yw'r taflenni gwasanaeth a'r hysbysiadau a gewch pan fyddwch yn dod i'r gadeirlan. Fi sy'n rhoi'r rhain at ei gilydd, ac yna'n brwydro efo'r llungopiwr i'w hargraffu! Mae'n dasg ddiddiwedd – cyn gynted ag y mae trefn un gwasanaeth yn gadael y peiriant argraffu, dyna lle'r ydech chi yn yr ystafell argraffu gyda'r gliniadur yn rhoi trefn ar yr un nesaf.


Getting to know... Sam Jones

In each edition of **Buchedd Bangor**, we meet a member of the cathedral community.

This time, we get to know Sam Jones.

There are at least 14 services per week in the cathedral, and Sam is the one who works behind the scenes to make sure they all happen.

He talked to **Chris Dearden** about his role...





Diolch byth, mae mwy i'r swydd na llungopiö. Mae'n fater o gymryd y geiriau mewn llyfr gweddi a'u troi yn wasanaeth. Yn yr un modd yn union â dramâu Shakespeare sydd heb fod yn cynnwys llawer o gyfarwyddiadau – pwy sy'n sefyll yn lle, pwy ddylai gerdded oddi ar y set ac i mewn a phryd – rhan ddiddorol fy ngwaith yw gofalu y bydd geiriau mewn llyfr yn gweithio yn y gofod tri-dimensiwn, sef Cadeirlan Deiniol Sant.

Ond 'does bosib, ar y Sul fel arfer, mai'r hyn wnawn ni yw ail-adrodd y fformiwla a weithiodd yn iawn yr wythnos ddiwethaf?

Digon gwir, a dyna wnawn ni yn aml; ond gan mai cadeirlan yw hon, buan iawn y daw'n amser am wasanaeth arbennig - dros yr ychydig wythnosau diwethaf, rydym wedi cael y gwasanaeth dinesig, diolchgarwch a Sul y Cofio. Fy ngwaith i yw gwneud yn siŵr, beth bynnag fydd yn digwydd, fod pawb yn y lle iawn, fod y geiriau'n addas ar gyfer yr addoliad, ac na fydd dim yn torri rheolau'r eglwys. Neu yn iaith yr Eglwys yng Nghymru, fod popeth yn gweithio yn litwrgaidd, yn barchus ac yn ganonaidd.

Ymysg fy nyletswyddau eraill, mi fyddaf yn arwain y gweddïau yn y gosber ar ddyddiau'r wythnos; rydw i hefyd yn glerc lleyg, un o'r cantorion profiadol sy'n greiddiol i'r côr. Felly hwyrach nad ydi'r gwaith mor wahanol â hynny i swydd y mynachod yn yr hen ddyddiau ond nad oedd yn rhaid iddyn nhw ymgodymu â'r llungopiwr!



Your job title "succentor" sounds unusual – what does it mean?

It means something like "second in command in charge of worship", but this is the Anglican church, so we have to have a fancy title for it!

The best way to get your head round it is to look at the Welsh version. It's "ail-gantor", literally translated as "second singer". The precentor is the person in charge of the worship life of the cathedral; in Welsh, they're the "pencantor" or the "chief singer". In Bangor, the precentor is Canon Tracy Jones, though she uses the title "Canon for Congregational Life."

All these terms probably came about because many cathedrals started out as monasteries, and the main services of the day were mainly sung. So the monks who led the singing also organised the worship more generally.

So what do you actually do?

The bit of my job which most people see is the service and notice sheets that you get when you arrive at the cathedral. I put those together, and then do battle with the photocopier to print them! It's a never-ending task. As soon as one order of service is rolling off the printer, you're in the print room with a laptop sorting the next one.

Thankfully there's more to the job than photocopying. It's about taking the words in a prayer book and turning them into a service. Just as Shakespeare's plays don't include many stage directions – who should stand where, who should walk on and off the set at what time – the interesting part of my job is making sure that the words of a book will work in the three dimensional space which is Saint Deiniol's Cathedral.

Surely on most Sundays, we can just repeat the formula that worked last week?

Yes, and we often do; but since this is a cathedral, it doesn't take long before a special service comes up – in the last few weeks we've had the civic service, harvest festival and Remembrance Sunday. My job is to make sure that whatever happens, everyone is in the right place, the words are suitable for an act of worship and nothing breaks any of the church's rules. Or in Church in Wales-speak: it works liturgically, reverentially and canonically.

The other parts of my job are to lead prayers at weekday evensong; I'm also a lay clerk, one of the experienced singers who form the core of the choir. So maybe it's not that far from the job of the monks back in the day... except they didn't have to deal with photocopiers!

I presume you didn't go to a careers advice session at school and say "I want to be a succentor when I leave college!"

No – I wasn't even an Anglican when I was at school. My family were regulars at a Baptist church in Sudbury in Suffolk where I grew up, so I had a full immersion baptism aged 14.



Rydw i'n tybio nad aethoch chi i sesiwn cynggori gyrfaoedd yn yr ysgol a dweud "Dwi isio bod yn ail-gantor pan fydda'i yn gadael y coleg!"

Na – doeddwn i ddim hyd yn oed yn aelod o'r eglwys Anglicanaidd pan oeddwn i yn yr ysgol. Mi fyddai fy nheulu yn addoli yn eglwys y Bedyddwyr yn Sudbury yn Suffolk lle cefais i fy magu, felly cefais fedydd trochiad pan oeddwn i'n 14 oed.

Ond roedd gwahanol fathau o Gristnogaeth yn wastad wedi fy nenu. Yn f'arddegau cynnar, mi euthum ar drip ysgol i Baris ac ymweld â basilica'r Sacre Coeur. Hwn oedd fy mhrofiad cyntaf o'r hyn mae pobl weithiau'n ei alw yn "fan tenau", neu, i ddefnyddio'r ymadrodd Cymraeg "llecyn deufyd", lle mae'r bwlch rhwng y ddaear a'r nefoedd yn culhau. Roedd y tangnreffed a'r tawelwch y tu mewn yn golygu fy mod yn sydyn wedi teimlo presenoldeb Duw am y tro cyntaf yn fy mywyd.

Roeddwn i hefyd yn arfer canu'r gosber gyda chôr siambr pan oeddwn yn y coleg chweched dosbarth, felly erbyn i mi ddod i'r brifysgol ym Mangor yn 2015, roedd yn teimlo fel bod yr amrywiol fathau o Gristnogaeth yn dod at ei gilydd ar ruthr, a phopeth fel petai'n cyfuno i beri i mi ymuno â'r eglwys Anglicanaidd.

Mi allech dybio, gan fy mod i wedi dod i astudio mewn dinas ag ynddi eglwys gadeiriol, y buaswn i'n syml yn cerdded i mewn i'r gadeirlan. Ond doeddwn i ddim yn siŵr a oedd gen i hawl i wneud hynny, felly ambell waith y byddwn i'n sleifio i mewn ac yn cuddio yn y cefn. Yr oedd un o 'narlithwyr yn y brifysgol, Sally Harper, hefyd yn ymwneud â'r gadeirlan ar y pryd fel darllenydd lleyg, ac yn y diweddf dyma fi'n gofyn iddi hi, a hithau'n dweud, medri, wrth gwrs, mi fedri gerdded i mewn pryd y mynni. Ymunais â'r côr ryw ddwy flynedd yn ddiweddarach pan ddaeth lle yn wag, ac yr ydw i yma o hyd!

Mi sonioch am "lecynnau deufyd" – a yw Cadeirlan Deiniol Sant yn un o'r llecynnau hynny?

Ydi; weithiau pan fyddwch yn gweithio yn rhywle ac yn treulio'ch holl amser yn croesi pethau i ffwrdd oddi ar restr, fe all fod yn anodd dod o hyd i'r amser i'w werthfawrogi. Ond y mae hefyd yn lle all wneud i chi stopio'n stond ac ail-gysylltu â Duw, waeth pa mor brysur ydych chi.

Mae'n digwydd pan fo pelydryn o haul yn taro ar ddarn o bensaernïaeth na wnaethoch erioed sylwi arno o'r blaen, neu pan fyddwch yn plaensiantio salm ac yn sylweddoli fod pobl wedi bod yn gwneud hyn yma ers 1,500 o flynyddoedd... ond nad yw hynny ond eiliad yn nhragwyddoldeb Duw. Eiliadau felly sy'n gwneud i chi sylweddoli fod y gadeirlan yn arbennig am fod Duw yn bresennol yma. **[B]**

But I'd always been attracted by different types of Christianity. In my early teens I went on a school trip to Paris and visited the Sacre Coeur basilica. It was my first experience of what people sometimes call a "thin space", where the gap between earth and heaven is smaller. The peace and silence inside meant I suddenly felt the presence of God for the first time in my life.



I also used to sing evensong with a chamber choir while I was at sixth form college, so by the time I came to university in Bangor in 2015, it felt like various different types of Christianity were on a collision course, and everything seemed to be converging on becoming an Anglican.

You might think that coming to study in a cathedral city, I would just walk in to the cathedral. However, I wasn't sure if you were allowed to do that, so I'd come along occasionally and hide at the back. One of my university lecturers, Sally Harper was also involved in the cathedral at the time as a lay reader, and eventually I asked her, and she told me that yes, you can just turn up. I joined the choir around two years later when a vacancy came up, and I'm still here!

You mentioned "thin spaces" – is Saint Deiniol's Cathedral one of them?

Yes; sometimes when you work in a place and spend all the time ticking jobs off the list, it can be hard to find time to appreciate it. However, it's also a place which can suddenly make you stop and reconnect with God, no matter how busy you are.

It happens when the sunlight catches a piece of the architecture that you'd never noticed before, or when you're singing a plainchant psalm and you realise that people have been doing this here for 1,500 years... but that's still just the blink of an eye for God. Moments like that make you realise that the cathedral is special because God is present here. [B]



Mewn Gobaith – A Gobaith Mewnol

**Yr Adfent sy'n nodi
cychwyn y flwyddyn
eglwysig, gyda'r Nadolig,
yr Ystwyll a Gŵyl Fair y
Canhwyllau yn dilyn yn
fuan wedyn.**

**Mae'n gylch cyfarwydd i ni
oll. Felly, oes yna unrhyw
beth newydd i ni yn yr
hanesion cyfarwydd hyn?**

**Mae'r Parchg Ddr John
Prysor-Jones yn myfyrio
ar hyn...**

Rai blynnyddoedd yn ôl, cefas air ag offeiriad a ddywedodd ei fod, ar Sul yr Adfent, yn pregethu'r un bregeth flwyddyn ar ôl blwyddyn. Dyna fyddai'n ei wneud hefyd am weddill y flwyddyn Gristnogol.


Awgrymais wrtho fod dechrau o'r dechrau bob 12 mis yn teimlo fel nad oeddem wedi dysgu dim byd newydd dros y flwyddyn a aeth heibio. Fel bodau dynol, rydym yn newid ac yn datblygu; felly hefyd ein perthynas â Duw. Nid yw'r berthynas yn ddigwyddiad unwaith ac am byth y gallwn wedyn adael iddi: mae angen ei chadarnhau ac edrych arni o'r newydd yn gyson. Rydym oll yn teimlo dylanwad rhyw ymdeimlad o ddiffyg ymddiriedaeth yn ein bywydau, yn ein cymdeithas, ac yn y byd cyfan. Meddyliwch am y peth fel hyn: os nadawn yn ein blaenau, mae perygl i ni fynd wysg ein cefnau, llithro'n ôl i ryw fath o anobaith.

Hwyrach yn wir fod storiâu'r Adfent, y Nadolig a'r Ystwyll yr un fath bob blwyddyn, a gall eu neges sylfaenol o obaith ymddangos yr un fath, ond bob blwyddyn, gall ein profiadau ni ein hunain ein helpu i ddod o hyd i obaith o'r newydd ynddynt i ni, ein cadeirlan, a'r gymuned yn ehangach.

Mae'r geiriau cyfarwydd hyn o'r Beibl yn ein gwahodd i ganfod y cysylltiadau rhwng ein profiadau ni a phrofiadau'r Israeliaid, yn dyheu am Feseia i'w



Hope springs internal



Advent marks the start of the church's year, followed quickly by Christmas, Epiphany, and Candlemas.

It's a cycle we've all been round many times. So, is there anything new in these familiar stories for us?


Revd Dr John Prysor-Jones reflects...

Some years ago, I spoke to a priest who said that on Advent Sunday he preached the same sermon year after year. He did the same for the rest of the Christian year.

I suggested to him that going back to the start every 12 months felt like we had learned nothing new in the past year. We as human beings change and develop, and so does our relationship with God. It is not secured by a once-and-for-all act but needs to be reaffirmed and constantly refreshed. We all face the influence of the spirit of mistrust in our lives, in our society, and the wider world. Put another way, if we don't go forwards, we risk going back, sliding into a certain hopelessness.

The stories of Advent, Christmas, and Epiphany may be the same each year, and their core message of hope may seem the same, but each year our own experiences can help us find fresh hope in them for ourselves, our cathedral, and the wider community.

These familiar Bible passages invite us to find the connections between our experiences and those of the Israelites, longing for a Messiah to release them from centuries of servitude, and oppression; or between our own experience now, and the lives of Mary, Joseph, shepherds, angels, or magi, caught up in the drama of what we now call Christmas.



rhyddhau o ganrifoedd o gaethiwed a gorthrwm; neu rhwng ein profiadau ni yn awr, a bywydau Mair, Joseff, y bugeiliaid, angylion neu'r doethion, yn rhan o ddrama'r hyn sydd bellach yn gyfarwydd i ni fel y Nadolig.

Mae neges yr angylion, "peidiwch ag ofni," (**Luc 2:10**) yn neges o obaith, sy'n cyrraedd clustiau pobl yr ymylon, y gwrthodedig a'r sawl sy'n byw mewn ofn. Yn sicr, roedd y rhai a glywodd y neges hon yn ymwybodol iawn o'r profiad o ofn; roeddent wedi byw dan sawdl y Rhufeiniaid ers blynnyddoedd lawer.

'Dyw'r Rhufeiniaid ddim yn rheoli drosom ni yng Nghymru yn yr 21ain ganrif, ond mae llawer ohonom yn gwybod yn iawn sut deimlad yw hi pan fydd anobaith, digalondid ac ofn yn ein meddiannu. Gall y profiad hwn, sy'n gyffredin i ddynoliaeth oll, dreiddio i mewn i'n bywydau ar unrhyw adeg, naill ai trwy ein hamgylchiadau personol ein hunain, neu pan fyddwn yn dystion i ddioddefaint eraill.

Gall ein stôr ni o obaith gael ei dihysbyddu. Ac y mae canlyniadau hyn yn ddifrifol: ymdeimlad o fod yn unig, ar eich pen eich hun. Dim diogelwch. Teimlo'n annigonol, yn ddihyder, wedi colli pob rheolaeth, bod yn hunandosturiol, yn ddig, dan bwysau, teimlo ein bod wedi ein bychanu neu ein llethu. Ac i amddiffyn ein hunain, medrwn ymgilio yn emosiyol, yn gorfforol ac yn ddeallusol. Gall ymdeimlad o bwras, ystyr a chyfeiriad ildio i anobaith – waeth i ni roi'r gorau i bethau ddim; mae gobaith wedi diflannu. Yn ysbrydol, ni allwn bellach "weld."

Ymateb y bugeiliaid yw "gadewch i ni fynd i Fethlehem a 'gweld' yr hyn sydd wedi digwydd" (**Luc 2:15**). Maent yn ymateb trwy wneud rhywbeth.

Efallai mai'r neges i ni yw bod yna obaith, ac mai trwy berthynas y mae ei brofi. Galwad ydyw i symud ymaith oddi wrth ynysu dinistriol at berthynas â phob ac a chymuned - hyn sy'n ein meithrin ac yn ein cynnal. Mae'n cynnig y posiblwrwydd o'n hadfer i gyfanrwydd, a'n hachub rhag ein dieithrio oddi wrth Dduw, oddi wrth bobl eraill, ac oddi wrthym ni ein hunain.

I rai pobl, y profiad mewnol o anobaith sy'n rhoi bod i'r ymdeimlad y gall gobaith fodoli wedi'r cwbl. Trwy gydnabod hynny, mae rhywbeth yn torri i mewn o'r tu allan ac yn trawsnewid y profiad. Yn ein bywydau, mae hyn yn digwydd yn aml trwy berthynas. Daw rhywun â gobaith i mewn, naill ai trwy dalu sylw, trwy fod yn glust i wrando, trwy beidio â barnu, neu dim ond trwy gynnig gwedd arall ar bethau; rhoi sicrwydd, waeth beth sy'n digwydd, y gallwn ei wynebu.

Mae'r cipolwg hwn ar obaith yn awgrym bod mwy i'r sefyllfa, fod profiadau eraill ar y gorwel. Efallai'n wir fod y dyfodol yn edrych yn ansicr, ond mewn rhyw ffordd ryfedd, y mae bellach yn teimlo'n fwy sicr. Cawn ymdeimlad, beth bynnag a ddaw, y gallwn ei wynebu a gwneud synnwyr o bethau. Er na wyddom sut beth fydd, fe ddaw'r ystyr yn glir, waeth beth fydd y canlyniad.




Cwiltio yn y gadeirlan ar gyfer Diwrnod AIDS y Byd, mis Rhagfyr
Quilting in the cathedral for World AIDS Day in December

The message brought by the angels, "do not be afraid", ([Luke 2:10](#)) brings a message of hope, and is heard by the humble, by the outcast and by those who are afraid. Those hearing this message certainly knew the lived experience of fear; they had lived under Roman occupation for many years.

The Romans don't rule over 21st century Wales, but many of us know what it's like when hopelessness, despair, and fear take over. This common human experience can enter our lives at any time, either through our personal circumstances, or when we witness the suffering of others.

Our own reserves of hope can be sapped. The effect of all this can be serious; a sense of isolation, being alone. No more safety and security. Feelings of inadequacy, loss of confidence, control, self-pity, anger, tension, denial, being diminished or overwhelmed. To protect ourselves we can withdraw emotionally, physically, and intellectually. A sense of purpose, meaning, direction give way to hopelessness, we stop the struggle; hope goes. Spiritually we can no longer "see."



I'r bugeiliaid, gweld y baban lesu oedd y cipolwg hwn ar obaith. I ni, mae'n bod yn agored i brofiadau newydd; byw fel petai'r gwirionedd newydd eisoes wedi digwydd a ninnau yn ymdopi â'n hanawsterau. Mae gobaith ynglwm â rhywbeth neu rywun. I Gristnogion, lesu Grist yw'r rywun hwnnw.

Gall cyswllt ag lesu Grist greu'r ewyllys i fyw, goroesi, adfer, neu ddysgu. Gall greu gofod lle medr rhywun ddechrau "gweld" eto - neu ofod lle gall rhywun arall ysbrydoli unigolyn arall i "weld" eto. A gall greu gobaith.

Yn yr ystyr hwn, mae gobaith fel bwyd: unwaith i ni ei fwyta, mae'n rhoi ynni i ni fel ein bod yn medru mynd ati, a ninnau heb wir sylweddoli hynny er ein bod yn teimlo'r budd. Gall gobaith hefyd ein meithrin, ein cynnal a'n cefnogi mewn sefyllfaeodd lle nad oes modd gweithredu. Gall gobaith ein helpu i fyw gyda'r presennol anodd a'r dyfodol ansicr. Gall gobaith ein dysgu i aros am yr ennyd pan fyddwn yn "gweld" eto, a'n hofnau'n cilio, gan droi ofn a dychryn yn barchedig ofn.

Mae dwyn ein dychymyg i dymhorau'r flwyddyn Gristnogol yn symbyliad i ni ddirnad yr annirnadwy, i dorri trwy derfynau'r hyn oedd gynt yn bosib. Peth hawdd, efallai, yw ail-adrodd yr un bregeth flwyddyn ar ôl blwyddyn, neu wfftio stori'r Nadolig am ein bod wedi ei chlywed droeon o'r blaen. Ond os byddwn yn dwys ystyried yr hyn sydd yn bodoli ynom, a'r hyn y gallwn fod fel bodau dynol, yna mae gobaith yn tarddu o'r tu mewn i ni.

Adeg y Nadolig, mae lesu yn cyfoethogi bywyd dynol am iddo gael ei eni o wraig, iddo fwyta, cysgu, teimlo poen, a thristwch, cariad a gorfoledd, iddo brofi cariad bodau dynol eraill, a'u caru hwy. Mae bod yn ddynol yn golygu rhannu natur y Duw oedd yn lesu Grist. Mae byw, a byw yn awr yn dwyn gobaith i'r byd. **[B]**

GWEDDI

Duw, helpa ni i weld y rhai sydd heb obaith
a'i ddal iddynt nes eu bod yn barod i'w brofi
drostynt eu hunain. Helpa ni i adnewyddu ein
gobaith yn dy bwras, ac ystyr i'n bywydau ni,
a bywydau teulu'r ddynoliaeth. Helpa ni i weld y
tu hwnt i amgylchiadau'r presennol at y dyfodol
sydd gennyt ti i ni.


The shepherds response is "we must go straight to Bethlehem and 'see' this thing that has happened" ([Luke 2:15](#)). The response is active.


Perhaps the message to us is that there is hope, and it is experienced through relationship. It is a call to move from destructive self-isolation into human relationship, and community, which is nurturing and sustaining. This offers the possibility of a restoration to wholeness, and rescue from alienation from God, other people, and ourselves.

For some people, it is through the inner experience of there being no hope that a sense of hope can arise. In that recognition something breaks in from outside and changes the experience. In human life this is often through a relationship. Someone brings hope in, whether through their attentiveness, through providing a listening ear, by not judging or by simply offering an alternate perspective; the reassurance that whatever happens, we will be able to face it.

**Daw'r gadeirlan yn "ofod cynnes" i'r gymuned bob dydd
Mercher o 1-3pm dros y gaeaf mewn partneriaeth â bar a
bwyty'r Clio Lounge.**

The cathedral becomes a "warm space" for the community every Wednesday from 1-3pm over the winter in partnership with the Clio Lounge bar and restaurant.





Ar frig yr organ! Robert Bateman o Adeiladwyr Organau David Wells a dynnodd y llun hwn pan oedd wrthi'n tiwnio'r offeryn yn gynharach eleni.

On top of the organ! Robert Bateman from David Wells Organ Builders took this picture while tuning the instrument earlier in the year.



This fresh glimpse of hope suggests that there is more to the situation, yet to be experienced. The future may seem uncertain, but in a strange way it now feels more secure. We get a sense that whatever happens, we will be able to face it, and make something of it. Even though we don't know what it will look like, meaning will come out of it, regardless of how it turns out.

For the shepherds, this glimpse of hope was physically seeing the baby Jesus. For us, it's an openness to new experience; living as if a new reality has already happened while struggling with present difficulties. Hope is attached to something or someone. For Christians that someone is Jesus Christ.

Connection with Jesus Christ can create a will to live, survive, recover, or learn. It can create a space in which someone can begin to "see" again – or a space where someone else can inspire another person to "see" again. And it can create hope.

In this sense hope is like food, once eaten it provides us with energy so we can function, of which we are unaware though we experience its benefits. Hope can also nourish, sustain, and support us in situations in which no action is possible. Hope can help us live with a difficult present, and an uncertain future. Hope can help us learn to wait for the moment when we can "see" again, and our fear subsides, transforming our experience from scared... to sacred.


Engaging imaginatively with the seasons of the Christian year can prompt us to think the unthinkable, to rise above the limits of what previously seemed possible. It might be easy to repeat the same sermon each year or dismiss the Christmas story because we've heard it so many times before. But if we reflect more deeply on what we have within us, and what we can become as human beings, then from within us comes hope.

At Christmas, Jesus enhances human life because he was born of a woman, ate, slept, felt pain, and sorrow, love, and joy, was touched by, and loved other human beings. To be human is to share in the nature of the God who was in Jesus Christ. To live and live now is bringing hope to the world. **[B]**

A PRAYER

God, help us to see those without hope and hold it for them until they are ready to experience it for themselves. Help us to renew our hope in your purpose, and meaning for our lives, and the life of the human family. Help us to see beyond present circumstances to your future for us.





Ein helusen Nadolig 2024


Our Christmas charity 2024

Bob blwyddyn, byddwn yn codi arian yn ein gwasanaethau Nadolig i elusen sy'n gweithio yn ein hardal. Eleni, byddwn yn cefnogi **Hive Caffi** yn Eglwys y Groes, chwaer-eglwys y gadeirlan yn ardal Maesgeirchen o Ffango.

Fe wnaethom ni dreulio prynhawn yno i weld sut y mae'n dwy়n pobl at ei gilydd...

Each year, we raise funds at our Christmas services for a charity in our area. This year, it's the **Hive Caffi** at Eglwys y Groes, the cathedral's sister church in the Maesgeirchen area of Bangor.

We spent an afternoon there to find out how it brings people together...





Denise Clark arrives at Eglwys y Groes. As the chief cook, it's her job to finish off cooking up to 70 meals. The next few hours are actually the home strait for her, as the job of preparing the food started yesterday with five hours of peeling potatoes and carrots. Before that, she spent two hours in the supermarket buying ingredients.

Mae Denise Clark yn cyrraedd Eglwys y Groes. Fel y prif gogydd, ei gwaith hi yw gorffen coginio hyd at 70 o brydau. Dros yr ychydig oriau nesaf y bydd hi'n tynnu at y terfyn, gan i'r gwaith o barato'i'r bwyd gychwyn ddoe gyda phum awr o blicio tatws a moron. Cyn hynny, roedd hi wedi treulio dwyawr yn yr archfarchnad yn prynu cynhwysion.

Bu'n awr brysur yn y gegin wrth i'r gwirfoddolwyr baratoi i agor y drysau a dechrau gweini. Mae'r pŵer i'r poptai wedi diffodd, ond daeth pawb ynghyd a llwyddo i gadw at eu hamserlen. "Fedr neb goelio ein bod wedi dod i ben", meddai Beth Hughes, un o'r trefnwyr. "Mae'r tîm o wirfoddolwyr yn wych – rywsut, mae'r byrddau wedi'u gosod, er ein bod wedi bod mor brysur, fedrwn ni ddim cofio pwyl wnaeth!"

It's been a hectic hour in the kitchen as the volunteers prepare to open the doors and start serving. Power has gone off to the cookers, but everyone has pulled together and are just about on schedule. "No-one can quite believe we've made it", says Beth Hughes, one of the organisers. "The team of volunteers are fantastic – somehow the tables got set, though it's been so busy, we can't remember who did it!"






Bob Hutchinson, sy'n gyfarwydd i lawer o bobl ym MaesG fel "Bob y Gas" yw un o'r rhai cyntaf i gyrraedd o hyd. "Mae Denise yn gogydd rhyfeddol", meddai. "Mi gollais fy ngwraig nôl ym mis Chwefror, a 'tydi coginio i chi'ch hun ddim yn llawer o hwyl. Nid dim ond y bwyd ydi'r peth, chwaith; mae pobl yn dod yma am ei fod yn gyfle i MaesG ddod at ei gilydd. Mae'n beth cymdeithasol hefyd."

Bob Hutchinson, known to many people on MaesG as "Bob the Gas" is always one of the first ones to arrive. "Denise is a great cook", he says. "I lost my wife back in February, and cooking for yourself is never great. It's not just about the food though, people come here because it's chance for MaesG to get together. It's a social thing as well."

Mae'r mamau Hanna ac Ammie yn eistedd i lawr efo'u plant i gael cinio. Cafwyd tipyn o "drafodaeth" ynglŷn ag yw Maisy, sy'n dair oed, am fwyta ei moron. "Mae'n grêt fod y plant yn medru dod yma a chymdeithasu yn rhywle ar wahân i'r ysgol", medd Hanna. "Mae fel cael ffrindiau'n galw heibio i de, heblaw nad oes yn rhaid i Mam goginio! Mae un o'n ffrindiau sy'n arfer dod yn fam sengl i bump o blant, felly mae'n gyfle i ni i gyd roi'r byd yn ei le a rhannu'r baich o edrych ar eu holau."

Mums Hanna and Ammie are sitting down to dinner with their children. There's some "discussion" over whether three-year-old Maisy is going to eat her carrots. "It's great that the children can come here and socialise away from school", says Hanna. "It's like them having friends round for tea, except that mum doesn't have to cook! One of our friends who usually comes is a single mum to five children, so it's chance for us to catch up, and spread the load of looking after all of them."



3.45pm



Y platiau'n wag... ar wahan i foron Maisy! Phil Roberts yw un o'r gwirfoddolwyr, ac y mae hefyd yn un o wardeiniaid Eglwys y Groes.

"Cychwynnwyd Hive Caffi yn 2019 fel rhan o brosiect cymunedol. Roed yn gysylltiedig â gardd gymunedol lle byddwn yn tyfu rhai o'r pethau sydd arnom eu hangen i'w coginio.

Galwyd y lle yn Hive am i ni ddweud ei fod mor brysur â chwch gwenyn! Mae'n llwyddo oherwydd i'r gwirfoddolwyr ymrwymo oriau o'u hamser dros y blynnyddoedd, gan roi'r gair ar led, a chreu gofod cymunedol diogel – yn ogystal â pharatoi bwyd."

Ein diolch i Robin Formstone o Freelance Photos North Wales am y lluniau yn yr adran hon

Clean plates... apart from Maisy's carrots! Phil Roberts is one of the volunteers, and also one of the church wardens at Eglwys y Groes.

"The Hive Caffi was started in 2019 as part of a community project. It was linked to a community garden where we grow some of the things we need to cook.

The name Hive came because we said we were all as busy as bees! Its success is down to the hours of dedication that volunteers have put in over the years, spreading the word, and creating a safe community space – as well as preparing food."

Our thanks to Robin Formstone of Freelance Photos North Wales for the pictures in this section





4.15pm

Gall Denise Clark o'r diwedd gael pum munud o seibiant o'r gegin yn yr awyr iach. Mae'n costio rhwng £80-£120 i brynu'r cynhwysion ar gyfer yr holl brydau sy'n cael eu gweini bob yn ail brynhawn Mawrth. "Yr hyn sydd arnom ei angen hefyd yw mwy o gwirfoddolwyr", ychwanega Denise. "Petai modd i ni gael ychydig mwy o bobl, byddai'n bosib i ni rannu'n ddau dîm o bump, a rhedeg Hive Caffi bob wythnos."


Denise Clark is finally able to sneak away from the kitchen for five minutes' fresh air outside. It costs between £80-£120 to buy the ingredients for all the meals that get served every other Tuesday afternoon. "What we also need is more volunteers", Denise adds. "If we could get a few more people, we could split into two teams of five and run the Hive Caffi every week."



4.30pm


Amser a'r gwirfoddolwyr eu hunain yn cael eu bwyd. Mae'n bryd golchi'r llestri, ond mae Denise eisoes yn dechrau meddwl am beth fydd ar y fwydlen ymhenei pythefnos...

Time for the volunteers themselves to have their food. The washing up awaits, but Denise is already starting to think about the menu for a fortnight's time...





*Yr Atgyfodiad yn yr Eglwys Gadeiriol ym Mangor. Maent hefyd wedi
bed yn chwarae yng Nghaerdydd, Crymych, Llanbedr pontsteffan,
Llanfairpwll a'r Bala.*



Seiniau'r Atgyfodiad! The Resurrection Shuffle!

Mae'r traddodiad cerddorol yng Nghadeirlan Deiniol Sant yn mynd yn ôl gannoedd o flynyddoedd.


Ond yn 1972, siglwyd yr adeilad i'w seiliau gan fath gwahanol o gerddoriaeth – roc Cristnogol, a hynny yn Gymraeg.

A thros hanner canrif yn ddiweddarach, mae ar fin digwydd eto. **Rhys Lloyd Jones** sy'n esbonio...

The musical tradition at Saint Deiniol's Cathedral goes back hundreds of years.

But in 1972, the building rocked to a new type of music – Christian rock, in the Welsh language.

And over half a century later, it's about to happen again. **Rhys Lloyd Jones** explains...



Mae'r hen ddywediad "gan y diafol mae'r tiwniau gorau i gyd" mewn gwirionedd yn mynd yn ôl mor bell â 1773, ond dychwelodd i sylw'r cyhoedd yn y 1950au gyda'r twf ym mhoblogrwydd roc a'r rôl.

Yng ngogledd Cymru, fodd bynnag, roedd pedwar llanc o Fôn yn benderfynol o brofi y gallai cerddoriaeth roc hefyd gael ei gysegru i Dduw, a bod modd ei berfformio hyd yn oed yng ngofod cysegredig Cadeirlan Bangor.

Y pedwar oedd Arfon Wyn ar y gitâr, Charli Goodhall ar y bas, y drymiwr Maldwyn Huws, a Dafydd Slade yn chwarae'r organ. Daethant at ei gilydd dan yr enw "The Resurrection", a'i newid yn nes ymlaen i'r Gymraeg, "Yr Atgyfodiad".

A hwythau wedi newid eu henw sawl gwaith, o "The Swamp" a'r "Archimedes Principle", daeth Yr Atgyfodiad yn arloeswyr nid yn unig ym maes roc Cristnogol ond hefyd mewn roc Cymraeg. Roeddent o flaen eu hamser – byddai'n rhaid aros tan ddechrau'r 1970au cyn i fandiau roc Cymraeg mwy adnabyddus fel "Edward H Dafis" gael eu ffurfio, ond yr oedd yr Atgyfodiad eisoes yn dod â'u cyfuniad unigryw o ddysgeidiaeth Gristnogol a seiniau arloesol cyffrous i glyw ieuenctid Cymru.

Hwy oedd un o'r bandiau Cymraeg cyntaf i fod ar dudalen flaen papur newydd Y Cymro, a buont ar y llwyfan mewn nifer o ddigwyddiadau roc cofiadwy fel Gwallt yn y Gwynt (Ap Sachlian a Lludw) yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Hwlfordd yn 1972. A dyma greu hanes trwy fod y band roc cyntaf i chwarae yng Nghadeirlan Bangor.


Trefnwyd y noson gan gangen leol YMCA Cymru. Mae'r prif gitarydd Arfon Wyn yn cofio fod y gadeirlan yn llawn at yr ymylon o fyfyrwyr a hipis Bangor ar y pryd. Diolch byth, roedd y ddwy garfan yn asio'n dda, gan fwynhau set o roc gwerin gyda'i harmonïau swynol yn ogystal â cherddoriaeth fwy arbrofol a blaengar.

Roedd perfformiad y band mor egniol nes iddynt lwyddo i chwythu un o'r amps. Llwyddwyd i osgoi trychineb gan i Arfon Wyn gael fflach o ysbrydoliaeth a gofyn a oedd gan unrhyw un amp yn sbâr. Trwy ryw ryfedd wyrth, rhuthrodd un o aelodau hirwallt y gynulleidfa allan o'r adeilad a dod ag un o'i fan oedd wedi'i pharcio gerllaw. Hwyrach fod y gerddoriaeth hon wrth fod Duw wedi'r cwbl!

Yn dilyn llwyddiant y gig yn y gadeirlan, bu cryn newid yn aelodaeth y band dros y flwyddyn nesaf, gyda Nia Edwards a Geraint Tudur yn ymuno â hwy, ac ennyn dilynwyr lu gyda'u set fyw a bywiog.

Daeth eu caneuon cofiadwy ac uchelgeisiol i glyw Dafydd Iwan a Huw Jones, a hynny yn nyddiau cynnar y label enwog Recordiau Sain. Cynyddu hefyd wnaeth nifer yr aelodau, gyda phobl yn ymuno o fandiau roc Cymraeg eraill.

Daeth cyn-aelodau'r band o Dywyn, "Y Buarth", Gwyndaf Roberts a'r diweddar Keith Snellgrove, atynt fel yr adran rhythm, gyda brawd Gwyndaf, Dafydd, ar y ffliwt. Ymunodd y gitarydd o Fethesda a chyn-aelod Y Llwch, John Gwyn, hefyd â'r pedwarawd gwreiddiol.





Yr Atgyfodiad: aelod gwreiddiol y band

Yr Atgyfodiad (also sometimes called "The Resurrection")

The old saying "the devil has all the best tunes" actually dates back as far as 1773, but it came back into the public conscious in the 1950s with the boom of rock 'n roll music. In North Wales, however, four young people from Anglesey were determined to prove that rock music could also be dedicated to God, and could even be performed in the sacred space of Bangor Cathedral.

They were Arfon Wyn on guitar, Charli Goodhall on bass, drummer Maldwyn Huws and Dafydd Slade on organ. Together, they were "The Resurrection", later changing their name to the Welsh equivalent, "Yr Atgyfodiad".

Having gone through various name changes such as "The Swamp" and "Archimedes Principle", The Resurrection became innovators not only in Christian rock but also Welsh language rock. They were ahead of their time – in the early 1970s, better known Welsh language rock bands like "Edward H Dafis" were yet to be formed, but The Resurrection were already bringing their unique blend of Christian teachings and heady progressive sounds to the youth of Wales.

They became one of the first Welsh language bands to be on the front page of Y Cymro newspaper, and played many memorable events such as Gwalt yn y Gwynt (Ap Sachlian a Lludw), a rock concert at the National Eisteddfod in Haverfordwest in 1972. And they made history by becoming the first rock band to play in Bangor Cathedral.





Chwyldro Crist

Cyfweliad o'r grŵp bit newydd crefyddol
—ar dudalen 5.



Memorabilia'r band o'r 1970au

Band memorabilia from the 1970s

Yn dilyn hyn, cafwyd taith i Stiwdio Rockfield nodedig yn Sir Fynwy – a ddaeth yn enwog nid yn unig fel y fan lle bu nifer o sêr y byd pop Cymraeg yn recordio, ond lle recordiwyd sengl enwog Queen, "Bohemian Rhapsody" ac fe'i defnyddiwyd hefyd gan y band o Fanceinion, Oasis. Yma y recordiodd Yr Atgyfodiad eu hunig EP, a gynhyrchwyd gan Dave Edmunds oedd yn canu ac yn ysgrifennu caneuon, ac sy'n fwyaf adnabyddus am y band "Love Sculpture" a'r sengl ddaeth i frig y siartiau Nadolig yn 1970, "I Hear You Knocking".

Gwaetha'r modd, golygodd oedi wrth gynhyrchu'r record a'r ffaith fod llawer o'r caneuon yn hwy na thair munud na chafwyd fawr o gyfle i'w chwarae ar y radio, oedd mor bwysig. Gadawodd gweddill y band i ffurfi'o'r band roc blaengar Bran, a daliodd Arfon Wyn ati i gyfuno roc blaengar a gwerin gyda'r band Pererin, gan ennill cystadleuaeth Cân i Gymru yn 1979.

I ddathlu Dydd Miwsig Cymru, bydd Arfon Wyn a nifer o westeion arbennig yn perfformio caneuon o catalog Yr Atgyfodiad a Phererin yng Nghadeirlan Bangor ar Chwefror 14 am 7.30pm.

Mae'r cyngerdd am ddim, ond cofiwch gadw tocyn ymlaen llaw trwy www.storiel.cymru – ac y mae'r band eisiau sicrhau pawb na fydd angen dod ag amp sbâr! [B]

Rhys Lloyd Jones yw'r Swyddog Ymgysylltu a Dysgu yn amgueddfia Storiel drws nesaf i Gadeirlan Bangor.



The night was organised by the local branch of the Welsh YMCA. Lead guitarist Arfon Wyn recalls that the cathedral was brimming with the student and hippie element of Bangor at the time. Thankfully, both groups mixed well and enjoyed a set that comprised of melodic harmony based folk rock as well as more experimental progressive music.

The band's performance was so energetic that they managed to blow one of their amps. Near disaster was averted when Arfon Wyn thought on his feet and asked if anyone had a spare. Miraculously, a long-haired member of the audience dashed out of the building and brought a replacement from his van that was parked nearby. Maybe God approved of this music after all!

Following the success of the cathedral gig, the band's fluid line up changed through the year with Nia Edwards and Geraint Tudur joining the ranks whilst they continued to gain a strong following with their energetic live set.

Their ambitious and catchy songs caught the ear of Dafydd Iwan and Huw Jones whose now legendary record label Recordiau Sain Records was in its infancy. The number of members also grew with people joining from other Welsh rock bands.

Former members of Tywyn band "Y Buarth", Gwyndaf Roberts and the late Keith Snellgrove, came on board as the rhythm section along with Gwyndaf's brother Dafydd on flute. Bethesda Born guitarist and former member of "Y Llwch" John Gwyn also joined the original quartet.

A trip followed to Monmouthshire's famous Rockfield Studio – later used as a recording venue for Queen's hit single "Bohemian Rhapsody" and also used by the Manchester band Oasis. It was here that Yr Atgyfodiad recorded their only EP, produced by the Welsh singer-songwriter Dave Edmunds, known for the band "Love Sculpture" and the 1970 Christmas number one "I Hear You Knocking".

Sadly, delays at the pressing plant and the fact that many of the songs were over three minutes meant that all important radio airplay was minimal. The rest of the band departed to form the progressive rock band Bran, while Arfon Wyn continued to blend progressive and folk rock with the band Pererin, winning the Can i Gymry competition in 1979.

To celebrate Dydd Miwsig Cymru (Welsh Language Music Day), Arfon Wyn and special guests will perform Yr Atgyfodiad and Pererin's back catalogue at Bangor Cathedral on 14 February at 7.30pm.

The concert is free, but please reserve a ticket in advance through www.storiel.cymru – the band assure us that there's no need to bring them a spare amp! [B]

Rhys Lloyd Jones is Engagement and Learning Officer at the Storiel museum next door to Bangor Cathedral.





Y dyddiadur

The diary

Datganiadau | Recitals

Digwyddiadau | Events

©Snowman Enterprises Limited 2022. THE SNOWMAN™ Snowman Enterprises Limited



Datganiadau cerdd

Music recitals

POB DYDD IAU, 1.15PM

CERDD AMHRISIADWY

MYNEDIAD AM DDIM

Ymunwch â ni am baned, cacen a chyfle i glywed artistiaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol dawnus.

5 RHAGFYR
ADAM PARRISH
PIANO

Mae sgiliau Adam Parrish ar yr allweddifyrddau yn nodedig ledled gogledd Cymru, mewn lleoliadau o westai i eglwysi. Heddiw, mae'n dychwelyd i Fangor gyda rhaglen o ffefrynnau'r tymor.

12 RHAGFYR
STRAFAGANSA'R NADOLIG

Daw blwyddyn o'n datganiadau cerddorol i ben gyda phrynhawn o ffefrynnau Nadoligaidd, gyda lluniaeth addas yn cael ei ddarparu. Manteisiwch ar y cyfle hwn i ymuno â ni a mynd i ysbryd yr wyl.

EVERY THURSDAY, 1.15PM

PRICELESS MUSIC

FREE ENTRY

Join us for tea, cake and a chance to hear talented local, national and international artists.

5 DECEMBER
ADAM PARRISH
PIANO

Adam Parrish's skills at the keyboard are appreciated all over North Wales, from hotels to churches. Today he makes a return to Bangor with a programme of seasonal favourites.


12 DECEMBER
CHRISTMAS
EXTRAVAGANZA

We round off the year in our recital series with an afternoon of festive favourites and some suitable refreshments. Take some time out to join us and get into the Christmas spirit.

Tudalen Flaenorol | Previous page

Y Dyn Eira | The Snowman

Gweler tudalen 58 | See page 59



16 IONAWR

SIMON OGDON

PIANO

Er mai fel canwr gwrth-denor yng nghôr y gadeirlan y mae Simon Ogdon yn adnabyddus, y mae hefyd yn bianydd medrus, ac yn feistr ar arddulliau o jas i gerddoriaeth glasurol.



Simon Ogdon
16 Ionawr | 16 January

23 IONAWR

MARTIN BROWN

ORGAN

Martin Brown yw organydd y gadeirlan, a bu'n chwarae'r organ yma cyhyd ag y bu'r offeryn ar ei ffurf bresennol! Pwy well, felly, i ddangos i ni yr hyn y gall wneud y tu hwnt i wasanaeth eglwysig.

30 IONAWR

SEREMONI CAROLAU

Y peth da am fod yn eglwys yw ei bod yn dal yn dechnegol yn Nadolig tan yr ail o Chwefror! Ymunwch â ni am berfformiad arbennig o gampwaith Benjamin Britten.



Martin Brown
23 Ionawr | 23 January

16 JANUARY

SIMON OGDON

PIANO

He's usually to be found singing counter-tenor in the cathedral choir, but Simon Ogdon is also a versatile pianist, mastering styles from jazz to classical.

23 JANUARY

MARTIN BROWN


ORGAN

